Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
7 Mawrth 2019 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Math Williams, Geraint Strello, Peter Garlick, Gwyneth Thomas

Cadeirio: Erddyn Davies

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

1. YMDDIHEURIADAU

Wynn Roberts, Dafydd Iwan, Mirain Llwyd Owen

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Dim

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Mae'r Clerc wedi cwblhau cofnodion mis Chwefror, ond ni chawsant eu danfon at yr aelodau. Penderfynwyd eu bod yn cael eu hystyried a'u cadarnhau yng nghyfarfod Ebrill 2019.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Clwb Ieuenctid Bontnewydd

Cadarnhaodd Cyngor Gwynedd fod y ddau aelod staff sydd i redeg y Clwb Ieuenctid wedi cael eu gwiriadau DBS o'r diwedd. Bydd agnen trafod efo Cyngor Gwynedd ai nos Fercher neu nos Iau yw'r noson orau i gynnal y Clwb. Gall na fydd nos Fercher ar gael bob yn ail wythnos o ddechrau mis Hydref oherwydd fod Neuadd Y ganolfan wedi ei harchebu'n barod.

Cytunwyd fod angen ail-asesu llwyddiant y Clwb Ieuenctid wedi cyfnod o 3 mis, gan ofyn am adroddiad 3 mis wedi iddo ddechrau yn nodi'r niferoedd a fynychwyd a'r gweithgareddau a wnaethpwyd.

4.2 Cerrig yn Afon Gwyrfai

Ysgrifennodd y Clerc at Gyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am eglurhad pellach am y penderfyniad i beidio â chlirio'r cerrig o afan Gwyrfai. Disgwylir ateb.

4.3 Cadw Cymru'n Daclus

Disgwylir clywed gan Age Cymru os ydynt am greu rhandiroed i'w mabwysiadu gan wahanol grwpiau are eu tir ger y pencadlys ym Montnewydd.

Cytunwyd y byddai'n fwy synhwyrol i Age Cymru yn hytrach na'r Cyngor Cymuned redeg y cynllun o ddydd i ddydd pe byddai'r syniad yn dod i weithrediad, gyda'r Cyngor Cymuned yn rhoi cymorth.

Danfonodd Cadw Cymru'n Daclus fanylion am grantiau y gellir ymgeisio amdanynt mewn perthynas a thacluso a chadw ardal yn daclus, ond cytunwyd and oedd amodau a gofynion y grantiau o fewn gallu'r Cyngor Cymuned i'w gwireddu.

4.4 Y Ganolfan

Uwchraddwyd y goleadau argyfwng tân yn ddiweddar. Mae'r sefyllfa ariannol hefyd yn ymddangos ychydig yn well oherwydd cynnydd yn nefnydd Y Ganolfan.

4.5 Cyfethol Aelod

Mae'r cyfnod i'r cyhoedd ofyn am etholiad yn dod i ben ddydd Gwener 5 Mawrth, a hyd yn hyn ni ofynnodd neb am etholiad.

Os na fydd gofyniad am etholiad, yna'r cam nesaf fydd gosod hysbysiad ar yr hysbysfyrddau yn Llanfaglan a Bontnewydd yn gwahodd y rheini sydd â diddordeb ac yn gymwys i gael eu cyfethol i gysylltu â'r Clerc.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a Chostau Clerc Chwefror 2019

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £233.18 y mis
Cyfanswm Net £211.58 y mis

5.2 Aelodaeth Un Llais Cymru 2019/20 £152

5.3 Taliad Blynyddol i Glwb Pêl-droed Bontnewydd £825

5.4 Balans yn y Banc 4 Mawrth 2018 £15,715.75

5.5 Apwyntio Archwiliwr allanol ar gyfer 2018/19

Cytunwyd i apwyntio Cyngor Gwynedd fel yr archwilwyr allanol ar gyfer 2018/19

6. CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Cais cynllunio Gypsy Wood, Bontnewydd, LL55 2YA, C19/0169/19/AM. Dim gwrthwynebiad.

7. GOHEBIAETH

- Cau ffordd Y Foryd 12 Mai 2019 Race for Life
- Arolwg Cymru Gwasanaethau y tu allan i oriau Meddygon Teulu 2019
- Charity Scope – Banc Tecstiliau

Derbyniwyd yr uchod er gwybodaeth, gan nodi fod yna fanc tecstiliau yn siop Bontnewydd ac yn maes parcio Tafarn y Newborough.

8. MATERION ERAILL

8.1 Ymgynghoriad Cyhoeddus Canllaw Cynllunio Atodol Gwynedd a Mon – Ail-adeiladu Tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad

Rhaid gwneud sylwadau erbyn 4 Ebrill. Cytunodd y Clerc i ddanfon yr e-bost efo'r ddogfennaeth berthnasol i'r aelodau.

8.2 Swyddog Cefnogi Cymunedau Ardal Gwyrfai

.

Apwyntiwyd Rhian George fel Swyddog Cefnogi Cymunedau ardal Gwyrfai, Cyngor Gwynedd. Cytunwyd y byddai'n beth da iddi fynychu cyfarfod mis Ebrill er mwyn egluro ei gwaith a gweld sut y byddai'n bosibl cydweithio.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

4 Ebrill 2019 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd